**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 26 Mawrth 2019**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | DARPARU SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) yn nodi dadansoddiad o'r ymarfer ymgynghori cyn cynllunio a gwblhawyd mewn perthynas â safleoedd preswyl a thramwy arfaethedig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar safle Fferm Greengates (Dwyrain) yn Llanelwy fel yr amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.*<br><br>*(b) yn nodi argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2019 fel y nodwyd ym mharagraff 8.4 yr adroddiad;*<br><br>*(c) wrth ymateb i'r pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyn cynllunio ynglŷn ag agosrwydd y safleoedd i'w gilydd, diffyg ymgynghoriad arwyddocaol gyda'r Gymuned Deithiol gan gydnabod yr angen blaenoriaethol ar gyfer y teulu preswyl, bod y Cabinet yn cytuno i beidio â symud ymlaen gyda'r safle tramwy Sipsiwn a Theithwyr ar Fferm Greengates (Dwyrain) trwy gais cynllunio ffurfiol, a bod lleoliad y safle datblygu arfaethedig hwn yn cael ei benderfynu trwy broses ddyrannu safle ffurfiol fel rhan o fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd;*<br><br>*(d) wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer y safle preswyl i Sipsiwn a Theithwyr, cytuno i symud ymlaen â datblygiad safle preswyl Sipsiwn a Theithwyr Fferm Greengates (Dwyrain)* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *drwy'r broses cais cynllunio ffurfiol yn y lleoliad a nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad, ac y dylai'r cais cynllunio ffurfiol gynnwys fel cefndir wybodaeth gefnogol yr holl wybodaeth statudol yn ogystal ag asesiadau effaith busnes a phreswyl a mesurau addas ar gyfer lliniaru lle bo hynny'n angenrheidiol;*<br><br>*(e) pa bynnag opsiynau sy'n cael eu dewis i bennu lleoliad ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl a thramwy, na chaiff y safleoedd hynny eu datblygu yn agos i'w gilydd;*<br><br>*(f) nad yw'r Cabinet yn argymell dyrannu safle tramwy yn Fferm Greengates (Dwyrain) fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol, a*<br><br>*(g) yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad 5 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet –*<br><br>*(a) yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*<br><br>*(b) yn nodi'r defnydd arfaethedig o arian a ddygwyd ymlaen o ran gwasanaethau, ac*<br><br>*(c) yn cymeradwyo cynlluniau cyfalaf tai yn Aquarium Street a John Street Y Rhyl fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac fel y manylwyd yn yr adroddiad.* |
| **7** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |